**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y cyfarfod eithriadol o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymu a gynhaliwyd ddydd Llun 25 Hydref 2021 yn rhithiol drwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd);
G Owens (Clerc a Swyddog Monitro); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu'r Aelodau i'r cyfarfod eithriadol. Trefnwyd y cyfarfod er mwyn delio ag un adroddiad cyfrinachol felly roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'n ffurfiol fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o dan amodau rhan II.

Yn ogystal â'r adroddiad, roedd yr Aelodau hefyd wedi cael diagramau o'r strwythur cyfredol a'r strwythur arfaethedig, ynghyd ag adroddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), sef "NJC for Brigade Managers Salaries and Numbers Survey 2019".

1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 MATERION BRYS

3.1 Dim.

4 CADERNID Y PRIF DÎM RHEOLI A'R ADOLYGIAD O'U CYFLOGAU

4.1 Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ysgrifennu mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf, yn ymwneud â strwythur a chapasiti, wedi cael ei lunio gan y Prif Swyddog Tân, ac roedd yr ail ran, yn ymwneud â chyflogau a thaliadau, wedi cael ei lunio gan y Clerc a'r Trysorydd.

4.2 Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021; roedd ei Aelodau'n cefnogu'r camau arfaethedig ac wedi argymell yn unfrydol ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

4.3 Aeth y Prif Swyddog Tân â'r Aelodau drwy ran cyntaf yr adroddiad, a oedd yn cyflwyno cynnig y Prif Swyddog Tân ar gyfer cyfansoddiad Prif Dîm Rheoli'r Gwasanaeth. Bwriad y Prif Dîm Rheoli arfaethedig oedd darparu mwy o gadernid gweithredol a rheolaethol, yn ogystal â chapisiti i fynd i'r afael â'r heriau y tynnwyd sylw atynt gan y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad sefyllfaol.

4.4 Nodwyd bod strwythur dros dro y Prif Dîm Rheoli yn ei le ers pedair blynedd bron, gyda swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi'i chadw'n wag am y cyfnod. Roedd cynnig y PST yn cynnwys ffurfioli swydd y Prif Swyddog Cynorthwyol fel rhan o'r llu, a hysbysebu swyddi Dirprwy Brif Swyddog Tân a Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol, gyda'r Awdurdod llawn yn cadarnhau'r penodiadau cyn diwedd mis Rhagfyr 2021.

4.5 Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhesymeg dros y strwythur arfaethedig, ac yna bu'r Aelodau'n trafod yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn gallu gofyn cwestiynau i'r PST, y Clerc a'r Trysorydd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y strwythur arfaethedig yn fforddiadwy a bod angen adfer swydd Dirprwy Brif Swyddog Tân.

4.6 Ar ôl cloi'r trafodaethau am y strwythur arfaethedig, aeth y Prif Swyddog Tân allan o'r cyfarfod ac aeth y Clerc â'r Aelodau drwy weddill yr adroddiad yn ymwneud â chyflogau'r prif swyddogion.

4.7 Esboniodd y Clerc ei fod ef a'i ragflaenydd, Colin Everett, wedi llunio cyfres o egwyddorion i'w mabwysiadu. Byddai'r egwyddorion yn golygu bod modd cynnal adolygiadau'r Awdurdod o uwch gyflogau nawr ac yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfraddau cyflogau tebyg sy'n cael eu talu gan awdurdodau tân ac achub sy'n gweithredu mewn ardaloedd sy'n debyg o ran maint poblogaeth, sef ardaloedd Band Poblogaeth 2. Drwy ddefnyddio data meincnodi'r NJC, roedd yr Awdurdod yn dibynnu ar ddata a oedd yn benodol i'r sector, yn ymwneud â rhengoedd tebyg, ac a oedd yn gynhwysfawr drwy fod yn seiliedig ar yr holl gyflogau ymhob gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a Lloegr. Felly, byddai'r egwyddorion yn tynnu unrhyw elfen o oddrychedd a byddent yn helpu i sicrhau bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau'n gystadleuol wrth geisio denu a chadw uwch arweinwyr o'r tu mewn i'r Gwasanaeth ac fel arall.

4.8 Dyma'r egwyddorion a oedd yn cael eu cynnig:

i. bydd graddfeydd cyflog yn gysylltiedig â'r cyfraddau cyflog sylfaenol cyfartalog a gesglir ac a gyhoeddir gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol er mwyn darparu cymariaethau priodol yn benodol i'r sector;

ii. bydd pob lefel uchafedd yn cael ei gyflogi ar raddfa dri-phwynt, a bydd mynd i fyny'r raddfa yn amodol ar arfarniad blynyddol boddhaol. Bydd pob cynyddran yn y raddfa yn seiliedig ar £1,500 ar gyfer y PST; a chyfran gymharol ar gyfer y swyddi eraill;

iii. bydd yr Awdurodd yn talu, ar waelod y raddfa dri-phwynt, y cyflog sylfaenol cyfartalog ar gyfer awdurdod ym Mand Poblogaeth 2, a bydd yn cynnwys yr holl ddyletswyddau;

iv. bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol a negodir ac a gytunir yn cael eu cymhwyso fel mater o drefn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer gweithwyr cyflogedig y "llyfr llwyd" a'r "llyfr gwyrdd" (yn ddibynnol ar weithiwr yn dewis hepgor unrhyw ran ohono);

v. caiff y perthynoldeb cyflogau rhwng swyddi PST, DBST, PSTC a PSC ei adfer i'r cyfrannau a oedd yn bodoli yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru cyn 2009, ac sy'n dal yn arferol yn y rhan fwyaf o Wasanaethau Tân ac Achub. Caiff cyflog pob lefel uchafedd ei gyfrifo fel cyfran o gyflog y Prif Swyddog Tân, fel a ganlyn:

| | Presennol | Arfaethedig |
|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | 100% | 100% |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 77.7% | 80% |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 72.2% | 75% |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | 48.7% | 60% |

vi. bydd y swyddi'n cael maint priodol, sy'n gymharol i'w lefel uchafedd, a bydd eu maint yn gyfartal ar draws pob un ar y lefel honno er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal; a

vii. bydd cyflog yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â'r gofynion o dan y dull 'dau drywydd' ar gyfer pennu lefelau cyflog Rheolwyr Brigâd fel y rhagnodir gan yr NJC. Tair blynedd yw'r cyfnod derbyniol.

4.9 Bu'r Aelodau'n trafod ail ran yr adroddiad am gryn amser, gan holi'n benodol ynghylch y cynnydd yng nghyflog y Prif Swyddog Cynorthwyol. Roedd y gyfradd ganrannol a awgrymid ar gyfer y swydd yn debyg yn uniongyrchol i'r un rheng yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a fymryn yn is na'r swydd gyfatebol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin. Roedd y gwahaniaeth yn dangos faint roedd y cyflogau wedi gwahanu oddi wrth ei gilydd o gymharu â chyfartaledd y DU, a hynny oherwydd nad oedd adolygiad o'r uwch gyflogau wedi cael ei gynnal yn GTAGC ers 2015.

4.10 Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau i'r drafodaeth, ac yna **PENDERFYNWYD**

**a) nodi argymhelliad y Prif Swyddog Tân ynglŷn â chyfansoddiad Prif Dîm Rheoli'r Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol;**

**b) mabwysiadu'r saith egwyddor ar gyfer cyflogau fel y nodir yn yr adroddiad;**

**c) cymhwyso'r cyflogau diwygedig, fel y nodir yn yr adroddiad, o 1 Tachwedd 2021 ymlaen.**